



### ***Materion mewn cyfraith lesddaliad***

Rydym yn ymwybodol bod nifer o faterion yng nghyfraith landlord a thenant a allaifod angen eu diwygio. Mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â phrydlesi masnachol er bod rhai yn fwy cynhwysfawr. Maent yn cynnwys:

- Pryderon ynglŷn â chwmpas Cytundebau Gwarant Awdurdodedig o dan Ddeddf (Cyfamodau) Landlord a Thenant 1995 yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn *K/S Victoria Street v House of Fraser* [2011] EWCA Civ 904, lle cadarnhaodd y llys na chaniateir "gwarant uniongyrchol" o dan y Ddeddf.
- Problemau sy'n weddill â'r rheol bod rhaid wrth gyfnod arbennig i brydles, yng ngoleuni penderfyniad y Goruchaf Lys yn *Berrisford v Mexfield Housing Co-operative* [2011] UKSC 52.
- Diwygiad i ddarpariaethau sicrwydd daliadaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 er mwyn gwneud trefniadau'n symlach.

Byddem â diddordeb ym marn y rhai yr ymgymhorwyd â nhw o ran a yw'r materion hyn yn briodol i'w hadolygu gan Gomisiwn y Gyfraith (un ai'n unigol, neu fel rhan o brosiect yn edrych ar ystod o faterion prydlesol). Yn arbennig, rydym eisiau gwybod i ba raddau mae ganddynt effaith sylweddol yn ymarferol ac yn economaidd. Hefyd, hoffem glywed awgrymiadau pellach am feysydd eraill o gyfraith lesddaliad sydd angen eu moderneiddio, eu symleiddio neu eu diwygio.